# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

## Newyddlen Diweddaru

Gorffennaf 2017

**Helo.....**

Mae hi wedi bod yn gyfnod digon prysur er i ni rannu'r newyddion diweddaraf â chi am ein gwaith yng nghronfeydd Llys-faen a Llanisien.  Mae'n ddigon posibl y bydd rhai ohonoch wedi sylwi ar dipyn mwy o fynd a dod ar y safle wrth i'n gwaith i godi'r cronfeydd i'n safonau gweithredu uchel brysuro.

Yn y cylchlythyr hwn, mae ychydig mwy o wybodaeth am y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo a beth sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf.  Gobeithio y bydd y wybodaeth o ddefnydd i chi.

## Y ffens ymyl

Yn gynharach eleni, cawsom ganiatâd cynllunio i adfer y ffens ymyl a oedd yn arfer amgylchynu'r safle.  Roedd y ffens wedi dadfeilio neu wedi cael ei difrodi dros y blynyddoedd, ac nid oedd hi'n addas at y pwrpas mwyach. Mae ein contractwyr wrthi'n brysur yn codi'r ffens newydd, ac rydyn ni'n rhagweld y byddwn wedi cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Gorffennaf.

## Gwaith Ecolegol

I ddiogelu'r bywyd gwyllt gwerthfawr sy ar y safle, rydyn ni'n dal ati i ddatblygu ein gweithgareddau o dan oruchwyliaeth a chymorth arbenigwyr ecolegol. Rydyn ni'n parhau i fynd ati'n rhagweithiol i ystyried yr effeithiau posibl cyn cyflawni gwaith ar y safle, gan gynnwys ystyried y risgiau posibl i adar nythu a fflora a ffawna pwysig arall cyn clirio'r llystyfiant wrth baratoi ar gyfer codi'r ffensys. Lle bo angen, rydyn ni'n cyflawni gwaith achub er mwyn symud anifeiliaid i fannau diogel. Mae ymdrechion mawr wedi parhau hefyd i glirio, ffrwyno a rheoli'r rhywogaethau anfrodorol a gafwyd ar y safle ac ar dir cyfagos.



*Llun: Peirianwyr arbenigol yn clirio un o'r sianeli all-lif*

O'r cychwyn cyntaf, rydyn ni wedi bod yn cyfathrebu'n gyson â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r holl ofynion i amddiffyn yr amgylchedd naturiol mewn ffordd briodol.



*Llun: Peirianwyr arbenigol yn gweithio i glirio un o'r siambrau draenio*

## Diweddaru RAG

Yn gynharach eleni, aeth cynrychiolwyr o'r cwmni i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp Gweithredu'r Gronfa Ddŵr i ddarparu diweddariad ar y gwaith.

Roedd neuadd Ysgol Gynradd Rhyd-y-Penau'n llawn, ac roedd hi'n hyfryd gweld cynifer o bobl â diddordeb mor frwd yn y cronfeydd yn bresennol.



*Llun: Cynrychiolwyr Dŵr Cymru yn annerch Cyfarfod RAG*

Yn ogystal â rhoi trosolwg o'r gwaith, fe esbonion ni, er nad ydym wedi cytuno pa gyfleusterau byddwn yn eu darparu ar y safle yn y dyfodol, ein bod yn awyddus i glywed am unrhyw syniadau sydd gan y gymuned leol.  Byddwn ni'n cysylltu â chi eto i roi gwybod i chi sut y gallwch rannu eich syniadau â ni.

# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Newyddlen Diweddaru

Gorffennaf 2017

## Draenio cronfa ddŵr Llanisien

Un o'r cwestiynau mawr na fu modd ei ateb ers i'r safle ddod i'n meddiant yw a fyddai angen draenio cronfa ddŵr Llanisien ai peidio. Ar ôl ystyried yr opsiynau'n ofalus dros y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi penderfynu bod angen gwagio'r gronfa. Rydyn ni wedi cael y caniatâd angenrheidiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ddechrau'r gwaith yma, ac rydyn ni'n disgwyl iddo gymryd ychydig dros dri mis i wagio'r gronfa.



*Llun: Cronfa Llanishen yn ddiweddar*

Rydyn ni wedi penderfynu gwagio'r gronfa am nifer o resymau. Y prif reswm yw y bydd gwagio'r gronfa'n rhoi cyfle i ni archwilio'r strwythur yn drylwyr a chyflawni unrhyw waith trwsio sydd ei angen, ac yn arbennig ar y gwaith maen. Pan fyddwn wedi cwblhau'r rhan yma o'r gwaith, byddwn ni'n dechrau'r broses o adlenwi'r gronfa.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni gadw'r safle ar gau i'r cyhoedd am gyfnod hirach na'r disgwyl am resymau diogelwch. Rydyn ni'n ymddiheuro am hyn, ond yn gobeithio y bydd pobl yn sylweddoli ei bod hi'n gyfle unwaith mewn oes i sicrhau bod y gronfa ddŵr yn cael ei hadfer yn llwyr nawr, fel y gellir ei mwynhau am genedlaethau i ddod.

Mae hi'n ddigon posibl eich bod chi wedi clywed ein bod ni wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i fuddsoddi mwy na £5 miliwn ychwanegol yn ein canolfannau ymwelwyr a'n cyfleusterau hamdden, sy'n cynnwys adfer cronfeydd Llanisien a Llys-faen. Byddwn ni'n ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o fanylion am hyn ac i roi gwybod i chi sut y gallwch chi chwarae eich rhan wrth helpu i gyflunio'r cyfleusterau a'r gweithgareddau a fydd ar gael ar y safle yn y dyfodol.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yn anffodus, mae ychydig o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod o amgylch y safle dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys fandaliaeth.

Os sylwch ar unrhyw beth anghyffredin, a fyddech cystal â rhoi gwybod i'r heddlu trwy ffonio 101.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Ar ddiwrnodau braf o haf, rydyn ni'n gorfod delio â nifer fawr o straeon am bobl sy'n mentro i nofio yn ein cronfeydd i oeri. Mae hyn yn gallu bod yn eithriadol o beryglus.

Rydyn ni'n cynnal ymgyrch ar beryglon nofion mewn cronfeydd dŵr bob haf. Mae'r fideo 'Un Anadl Olaf' yn rhoi darlun cignoeth o ddau berson ifanc sy'n boddi ar ôl mynd i'r dŵr mewn cronfa ddŵr ar ddiwrnod braf o haf – ac effaith hyn ar eu teulu a'u ffrindiau.

Gallwch wylio'r fideo trwy fynd i www.unanadlolaf.cymru

Byddwn yn ddiolchgar os gallwch ledaenu'r neges i'ch teulu a'ch ffrindiau.




## Am glywed rhagor?

Byddwn ni'n ysgrifennu atoch eto cyn bo hir gyda rhagor o newyddion am ein gwaith. Yn y cyfamser, os oes unrhyw gwestiynau gennych, os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a ni trwy'r manylion isod.



lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 dwrcymru.com